# Templed - datganiad i gefnogi eich cais

## Cais am orchymyn rhag molestu neu orchymyn anheddu (FL401)

Darllenwch y cyfarwyddyd sydd ar dudalen gyntaf y templed hwn yn ofalus.

Peidiwch ag argraffu neu gynnwys y dudalen gyntaf hon pan fyddwch yn cyflwyno eich datganiad a'ch cais.

Mae'r templed hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu chi i ddarparu'r holl wybodaeth y mae'r llys ei hangen mewn datganiad i gefnogi cais. Rhaid ichi gyflwyno datganiad, ond nid oes rhaid ichi ddefnyddio'r templed hwn os byddai'n well gennych ysgrifennu eich datganiad eich hun. Fodd bynnag, efallai y bydd y cyfarwyddyd hwn o gymorth i chi.

Dylech baratoi eich datganiad a llenwi ffurflen gais 'FL401', a dylech fynd â nhw i'r llys yr ydych yn gwneud cais iddo neu eu hanfon drwy'r bost neu e-bost.

1. Mae'r templed yn cynnwys datganiadau y mae'n rhaid ichi eu cwblhau drwy naill ai ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol neu drwy roi tic yn y blwch priodol.

2. Os nad ydych yn gwneud cais am orchymyn anheddu, yna peidiwch â rhoi tic yn y blwch perthnasol ar gychwyn y ffurflen a dylech hefyd adael yr adran am orchymyn anheddu yn wag.

3. Mae yna ddalen flaen templed ar dudalen olaf y ddogfen hon ar gyfer unrhyw arddangosyddion yr ydych yn eu cyflwyno. Dogfen arall yr hoffech i'r llys ei gweld fel rhan o'ch tystiolaeth yw arddangosyn. Gall fod yn:

- adroddiadau meddygol
- adroddiadau neu lythyrau gwasanaethau cymdeithasol
- allbrintiadau o negeseuon testun
- negeseuon e-bost

Os nad ydych eisiau i'ch manylion cyswllt gael eu rhannu â'r atebydd yna peidiwch â chynnwys eich cyfeiriad neu unrhyw fanylion cyswllt eraill mewn unrhyw arddangosyn.

Dylech ond gynnwys y ddalen flaen arddangosyn os ydych yn cyflwyno arddangosyn, a rhaid cyflwyno dalen flaen wahanol ar gyfer pob un.

Cewch ragor o gyfarwyddyd ar ochr dde pob tudalen wrth i chi gwblhau'r datganiad hwn. Ewch i www.advicenow.org.uk/statement-injunction i gael mwy o gymorth a chyngor.


©Hawlfraint y Goron 2021

# Dalen flaen datganiad i gefnogi eich cais

I'w lenwi gan y llys

Enw'r llys

Dyddiad cychwyn

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
| --- | --- | --- |
| | | |

Rhif yr achos

Datganiad y ceisydd

Rhif y datganiad

Arddangosyddion

Dyddiad

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
| --- | --- | --- |
| | | |

Enw'r ceisydd

Enw'r atebydd

enw(au) cyntaf a'ch cyfenw, er enghraifft A B Smith.

Rhif y datganiad:

Os ydych yn gwneud un datganiad yn unig, rhowch '1' yma. Os ydych yn gwneud mwy nag un datganiad, rhowch y rhif perthnasol.

Arddangosyddion: Nifer o arddangosyddion rydych yn eu hatodi. Gweler pwynt 3 ar y dudalen cyfarwyddyd.

Dyddiad: Rhowch ddyddiad paratoi'r datganiad.

Ceisydd: Ysgrifennwch eich enw llawn.

Atebydd:

Yr atebydd yw'r unigolyn yr ydych yn gofyn i'r llys wneud y gorchymyn yn ei erbyn.

Ysgrifennwch eu henw llawn

DATGANIAD CYNTAF Y CEISYDD

# 1. Rhagarweiniad

1.1 Fy enw llawn yw

Enw(au) cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

1.2 Fy nghyfeiriad llawn yw

Nodyn 1.2: Os ydych wedi gofyn i'r llys gadw eich manylion cyswllt yn gyfrinachol drwy lenwi ffurflen C8, ysgrifennwch 'Mae fy nghyfeiriad yn gyfrinachol'.

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

1.3 Rwy'n gwneud y datganiad hwn i gefnogi fy nghais am orchymyn rhag molestu yn erbyn fy

Nodyn 1.3: Nodwch sut mae'r atebydd yn perthyn i chi, er enghraifft, gŵr.

a'i (h)enw llawn yw

Enw(au) cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

1.4

☐ Rwyf hefyd yn gwneud cais am orchymyn anheddu

☐ Nid wyf yn gwneud cais am orchymyn anheddu Ewch i gwestiwn 1.6

1.5 Dylai'r gorchymyn anheddu ymwneud â'r cyfeiriad canlynol

Nodyn 1.5: Peidiwch â llenwi'r blychau hyn os nad ydych yn gwneud cais am orchymyn anheddu.

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

Rwyf wedi darparu rhagor o wybodaeth am y cyfeiriad yn y ffurflen FL401 sy'n amgaeedig. Mae hyn yn cynnwys pwy sy'n byw yn y cyfeiriad a manylion am y berchnogaeth a/neu drefniadau'r denantiaeth.

1.6 Os ydych yn gofyn am orchymyn heb rybudd, disgrifiwch yn eich geiriau eich hun pam yr ydych yn teimlo bod angen hyn.

Nodyn 1.6: Gweler cwestiwn 1.3 yn y ffurflen gais FL401 am gyfarwyddyd.

## 2. Hanes eich perthynas

Nodyn 2: Pan ofynnir am ddyddiadau yn yr adran hon, ceisiwch nodi dyddiadau penodol - ond gall hyd yn oed dyddiadau bras helpu, er enghraifft mis a blwyddyn.

2.1 Rwyf i a'r atebydd yn adnabod eich gilydd ers

Diwrnod ☐ Mis ☐ Blwyddyn ☐

2.2 Daethom yn

☐ gwpl ar neu o gwmpas y dyddiad canlynol

Diwrnod ☐ Mis ☐ Blwyddyn ☐

☐ amherthnasol

2.3 Mae ymddygiad yr atebydd

☐ wedi newid ers i'n perthynas ni ddechrau

☐ wastad wedi bod yn ddifrïol. Ewch i gwestiwn 2.5

2.4 Mi sylweddolais am y tro cyntaf bod ymddygiad yr atebydd wedi newid ar neu oddeutu

Diwrnod ☐ Mis ☐ Blwyddyn ☐

2.5 Mae enghreifftiau o'u hymddygiad difrïol wedi cynnwys

☐ Cam-drin corfforol

☐ Cam-drin rhywiol

☐ Cam-drin llafar neu emosiynol

☐ Bygythiadau

☐ Dychryn

☐ Aflonyddu

☐ Cam-drin economaidd neu ariannol

☐ Rheolaeth drwy orfodaeth

☐ Cam-drin ar-lein

Efallai y bydd mathau eraill o gamdriniaeth yr hoffech gynnwys. Gallwch roi rhagor o fanylion ac enghreifftiau yn yr adrannau nesaf.

Nodyn 2.5: Dylech ddewis cynifer o'r ymddygiadau hyn ag y credwch sy'n berthnasol.

Gallai cam-drin economaidd neu ariannol gynnwys eich atal rhag gweithio neu rwystro mynediad i gyfrif banc.

Rheolaeth drwy orfodaeth yw ymddygiad a allai fod yn fychanol, yn ynysig neu'n rheolaethol ac sy'n gwneud ichi deimlo fel nad oes gennych ryddid neu annibyniaeth.

Gallai cam-drin ar-lein fod yn: anfon negeseuon testun neu negeseuon e-bost bygythiol atoch, rheoli mynediad i'ch ffôn, cyfrif e-bost neu fynd ar-lein; rhyng-gipio eich negeseuon e-bost neu negeseuon testun.

Ewch i GOV.UK a chwiliwch am 'domestic abuse: recognise the signs' am enghreifftiau o wahanol fathau o gamdriniaeth ddomestig

Mae'r 3 adran ganlynol yn gofyn ichi ddarparu gwybodaeth am ddigwyddiadau penodol sydd wedi digwydd.

Os nad oes gennych enghreifftiau o ddigwyddiadau penodol ond bod yna batrwm o gamdriniaeth, ewch yn syth i adran 6 'Patrymau o gamdriniaeth neu ddigwyddiadau eraill'.

## 3. Digwyddiad diweddaraf

Nodyn 3: Os yw'n bosibl, ceisiwch roi'r union ddyddiad pan ofynnir amdano yn yr adran hon.

3.1 Mi ddigwyddodd/ddechreuodd y digwyddiad diweddaraf ar

Diwrnod ☐ Mis ☐ Blwyddyn ☐

3.2 Mae'r digwyddiad hwn o ymddygiad difrïol

☐ wedi dod i ben

☐ heb ddod i ben. Ewch i gwestiwn 3.4

3.3 Daeth y digwyddiad i ben ar

Diwrnod ☐ Mis ☐ Blwyddyn ☐

3.4 Manylion am y digwyddiad diweddaraf

Nodyn 3.4: Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch am ymddygiad yr atebydd.

3.5 Effaith y digwyddiad hwn ar fy iechyd, fy niogelwch neu fy lles

Nodyn 3.5: Disgrifiwch sut y mae'r digwyddiad hwn wedi effeithio arnoch chi, ac unrhyw blant, gan roi cymaint o fanylion ag sy'n bosibl.

3.6 Tystion a phobl yr wyf wedi dweud wrthynt am y digwyddiad hwn

Nodyn 3.6: Dywedwch wrthym am unrhyw un yr ydych wedi dweud wrthynt am y digwyddiad neu unrhyw un a oedd yn dyst i'r digwyddiad. Gall fod yn gyswllt personol megis aelod o'r teulu, ffrind neu gydweithiwr. Gallai hefyd fod yn unigolyn proffesiynol megis swyddog heddlu neu feddyg.

Dylech gynnwys gyda'ch cais a'ch datganiad gopïau o unrhyw dystiolaeth berthnasol am y digwyddiad hwn, megis adroddiad heddlu, adroddiad meddygol, lluniau. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth nad ydych eisiau i'r atebydd ei gweld.

# 4. Digwyddiad cyntaf

Nodyn 4: Os nad y digwyddiad diweddaraf yw'r tro cyntaf i'r gamdriniaeth ddigwydd, rhowch wybodaeth am y digwyddiad cyntaf y gallwch ei gofio.

Os yw'n bosibl, ceisiwch roi'r union ddyddiad pan ofynnir amdano yn yr adran hon. Ond gall hyd yn oed dyddiadau bras helpu, er enghraifft mis a blwyddyn.

4.1 The first incident happened/started on

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

4.2 Daeth y digwyddiad i ben ar

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

4.3 Manylion am y digwyddiad cyntaf

Nodyn 4.3: Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch am ymddygiad yr atebydd.

4.4 Effaith y digwyddiad hwn ar fy iechyd, fy niogelwch neu fy lles

| |
|---|
| |

Nodyn 4.4: Disgrifiwch sut y mae'r digwyddiad hwn wedi effeithio arnoch chi, ac unrhyw blant, gan roi cymaint o fanylion ag sy'n bosibl.

4.5 Tystion a phobl yr wyf wedi dweud wrthynt am y digwyddiad hwn

| |
|---|
| |

Nodyn 4.5: Dywedwch wrthym am unrhyw un yr ydych wedi dweud wrthynt am y digwyddiad neu unrhyw un a oedd yn dyst i'r digwyddiad. Gall fod yn gyswllt personol megis aelod o'r teulu, ffrind neu gydweithiwr. Gallai hefyd fod yn unigolyn proffesiynol megis swyddog heddlu neu feddyg.

Dylech gynnwys gyda'ch cais a'ch datganiad gopïau o unrhyw dystiolaeth berthnasol am y digwyddiad hwn, megis adroddiad heddlu, adroddiad meddygol, lluniau. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth nad ydych eisiau i'r atebydd ei gweld.

# 5. Digwyddiad gwaethaf

5.1 Y digwyddiad gwaethaf o gamdriniaeth oedd

- ☐ y digwyddiad diweddaraf. Ewch i Adran 6.
- ☐ y digwyddiad cyntaf. Ewch i Adran 6.
- ☐ digwyddiad arall

5.2 Mi ddigwyddodd/ddechreuodd y digwyddiad gwaethaf ar

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

5.3 Daeth y digwyddiad i ben ar

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

5.4 Manylion am y digwyddiad gwaethaf

Nodyn 5: Rhowch fanylion am y digwyddiad a wnaeth eich effeithio chi a/neu eich teulu fwyaf.

Os yw'n bosibl, ceisiwch roi'r union ddyddiad pan ofynnir amdano yn yr adran hon. Ond gall hyd yn oed dyddiadau bras helpu, er enghraifft mis a blwyddyn.

Dylech ond lenwi pwyntiau 5.2 i 5.6 os bu ichi ddewis 'digwyddiad arall' ym mhwynt 5.1.

Nodyn 5.4: Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch am ymddygiad yr atebydd.

5.5 Effaith y digwyddiad hwn ar fy iechyd, fy niogelwch neu fy lles

Nodyn 5.5: Disgrifiwch sut y mae'r digwyddiad hwn wedi effeithio arnoch chi, ac unrhyw blant, gan roi cymaint o fanylion ag sy'n bosibl.

| |
|---|
| |

5.6 Tystion a phobl yr wyf wedi dweud wrthynt am y digwyddiad hwn

Nodyn 5.6: Dywedwch wrthym am unrhyw un yr ydych wedi dweud wrthynt am y digwyddiad neu unrhyw un a oedd yn dyst i'r digwyddiad. Gall fod yn gyswllt personol megis aelod o'r teulu, ffrind neu gydweithiwr. Gallai hefyd fod yn unigolyn proffesiynol megis swyddog heddlu neu feddyg.

| |
|---|
| |

Dylech gynnwys gyda'ch cais a'ch datganiad gopïau o unrhyw dystiolaeth berthnasol am y digwyddiad hwn, megis adroddiad heddlu, adroddiad meddygol, lluniau. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth nad ydych eisiau i'r atebydd ei gweld.

# 6. Patrymau o gamdriniaeth neu ddigwyddiadau eraill

6.1 Ymddygiad difrïol arall hoffwn i'r llys ei ystyried

| |
|---|
| |

6.2 Effaith yr ymddygiadau hyn ar fy iechyd, fy niogelwch neu fy lles

| |
|---|
| |

Nodyn 6.1: Ceisiwch ddarparu'r un wybodaeth a ofynnir amdani yn yr adrannau blaenorol.

Gallwch ddefnyddio'r adran hon i ddisgrifio unrhyw batrwm o ymddygiadau gan yr atebydd na ellir ei briodoli i un digwyddiad yn unig. Gallai hyn gynnwys ymddygiadau rheolaethol parhaus.

Defnyddiwch ddalennau ychwanegol o bapur os oes angen.

6.3 Tystion a phobl yr wyf wedi dweud wrthynt am yr ymddygiadau hyn

# 7. Gorchymyn anheddu

Nodyn 7: Llenwch yr adran hon os ydych yn gwneud cais am orchymyn anheddu yn unig.
Os nad ydych, ewch i adran 8. Crynodeb.

7.1 Mae gen i a'r atebydd y cyfrifoldeb canlynol am y cartref perthnasol - ticiwch un blwch yn unig

- ☐ mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd am forgais
- ☐ mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd am gytundeb tenantiaeth (rhent)
- ☐ rwyf i yn unig yn gyfrifol am forgais
- ☐ mae'r atebydd yn unig yn gyfrifol am forgais
- ☐ rwyf i yn unig yn gyfrifol am gytundeb tenantiaeth
- ☐ mae'r atebydd yn unig yn gyfrifol am gytundeb tenantiaeth
- ☐ nid oes gan yr un ohonom gyfrifoldeb am forgais neu denantiaeth

7.2 Mae gennyf yr anghenion cartref canlynol

| |
|---|
| |

Nodyn 7.2: Disgrifiwch beth yw eich anghenion cartref. Dylech gynnwys:

- gwybodaeth am deithio i'r gwaith ac adref o'r gwaith
- anghenion unrhyw blant yr ydych yn gyfrifol amdanynt, megis nifer yr ystafelloedd gwely a pha mor agos yw'r cartref at eu hysgol
- ffactorau ariannol - er enghraifft, os oes gennych incwm isel, ni allwch fforddio symud neu mae gennych gytundeb rhent ffafriol gyda'ch landlord

7.3 Mae gan yr atebydd yr anghenion cartref canlynol

Nodyn 7.3: Disgrifiwch cystal ag y gallwch beth yw anghenion cartref yr atebydd, gan gynnwys:

- gwybodaeth am deithio i'r gwaith ac adref o'r gwaith
- unrhyw lefydd eraill yr ydych yn ymwybodol ohonynt lle allai'r atebydd aros, megis gydag aelod o'r teulu
- os ydych yn credu bod ganddynt y gallu i fforddio talu rhent yn rhywle arall a pham, megis mae ganddynt swydd sy'n talu'n dda
- anghenion cartref unrhyw blant maent yn gyfrifol amdanynt

7.4 Rwy'n poeni am y canlynol os na wneir y gorchymyn

Nodyn 7.4: Disgrifiwch beth ydych chi'n meddwl fyddai effaith tebygol penderfyniad i beidio â gwneud gorchymyn arnoch chi, yr unigolyn arall ac unrhyw blant.

7.5 Rwy'n gofyn i'r llys wneud gorchymyn a fyddai'n atal yr atebydd rhag gallu

- [ ] byw yn y cyfeiriad a nodwyd
- [ ] mynd i mewn i'r eiddo neu geisio mynd i mewn iddo
- [ ] mynd o fewn pellter penodol i'r cyfeiriad
- [ ] arall

Nodyn 7.5: Ticiwch bob un yr ydych eisiau gwneud cais amdano.

Mae yna bethau eraill y gallwch wneud cais amdano mewn gorchymyn anheddu. Dylech gael cyngor gan sefydliad cynghori. Ewch i www.gov.uk/report-domestic-abuse i weld rhestr o sefydliadau allai roi cymorth a chyngor i chi.

7.6 Rwyf hefyd yn gwneud cais am (ticiwch un blwch yn unig)

- [ ] holl rannau'r gorchymyn anheddu, gan gynnwys pŵer i arestio
- [ ] rhannau canlynol y gorchymyn anheddu gan gynnwys pŵer i arestio:

Nodyn 7.6: Dylech ond lenwi'r pwynt hwn os ydych eisiau i'r atebydd gael ei arestio gan yr heddlu os nad yw'n dilyn pob rhan o'r gorchymyn neu rannau penodol ohono.

# 8. Crynodeb

8.1 Dyma fy nghrynodeb cloi

Nodyn 8.1: Yma, dylech grynhoi eich rhesymau dros wneud cais a chynnwys unrhyw wybodaeth nad ydych wedi'i rhoi yn barod y byddech yn hoffi i'r llys ei hystyried.

## Datganiad Gwirionedd

Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

☐ Rwy'n credu bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon, ac ar unrhyw ddalennau parhau, yn wir.

Llofnod

☐ Ceisydd

Dyddiad

Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw llawn

Gallwch lofnodi'r cais â llaw neu gallwch deipio eich enw os ydych yn gwneud cais yn electronig.

Rhaid cyflwyno'r cais hwn ar yr atebydd.

Ni ddylech gyflwyno'r dogfennau ar yr unigolyn yr ydych yn gwneud cais i gael gorchymyn yn ei erbyn eich hun. Gweler tudalen gyntaf y ffurflen hon am ragor o wybodaeth a chyfarwyddyd ynghylch cyflwyno'r dogfennau.

## Ble i anfon eich datganiad ar ôl ei lenwi

Ar ôl i chi gwblhau eich datganiad, anfonwch ef gyda'r ffurflen FL401. Gweler y cyfarwyddyd yn y ffurflen am sut i anfon eich cais.

# Dalen flaen arddangosyn

Defnyddiwch ddalen flaen wahanol ar gyfer pob arddangosyn

Rhif y datganiad

Arddangosyddion

Dyddiad

Diwrnod

Mis

Blwyddyn

Rhif yr achos (i'w lenwi gan y llys)

Enw'r llys

Enw'r ceisydd

Enw'r atebydd

Arddangosyn